

Cabinet

Man Cyfarfod
**Siambwr y Cyngor - Neuadd y Sir,
Llandrindod, Powys**

Dyddiad y Cyfarfod
Dydd Mawrth, 21 Rhagfyr 2021

Amser y Cyfarfod
2.00 pm

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
Stephen Boyd
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk



Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

AGENDA

1.	YMDDIHEURIADAU
----	-----------------------

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd Sir Heulwen Hulme.

2.	DATGANIADAU O DDIDDORDEB
----	---------------------------------

3.	TRAWSNEWID DALGYLCH LLANFYLLIN
----	---------------------------------------

4.	DIWYGIADAU I GYTUNDEB RHYNG AWDURDOD TYFU CANOLBARTH CYMRU
----	---

Ystyriodd y Cabinet drydydd fersiwn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a oedd yn nodi egwyddor llywodraethu a rheoli Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Bwriad IAA3 oedd dechrau ar ôl i'r Cytundeb Bargaen Derfynol gael ei lofnodi rhwng y ddau Gyngor. Byddai'n parhau mewn grym ac yn weithredol am gyfnod y Fargaen Dwf.

Byddai Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru'n parhau fel y cydbwyllgor gweithredol o hyd gyda'r aelodaeth yn cynnwys deg aelod etholedig o gynrychiolwyr gan y Cyngorau (pump yr un). Ail-sefydlwyd holl baneli cynghori Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru mewn rhinwedd ymgynghorol i roi cyngor i'r Bwrdd.

Roedd y Grŵp Strategaeth Economaidd blaenorol wedi'i ailgyfansoddi fel y Grŵp Cynghori Economaidd gyda chylch gorchwyl newydd. Nid oedd gan y Cadeirydd hawliau pleidleisio ar Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (y Bwrdd) mwyach.

Nid oedd cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi newid i raddau helaeth o IAA2.

Roedd cylch gorchwyl Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru, a sefydlwyd o dan IAA1 i gydlynu cyngor a rheolaeth swyddogion proffesiynol i'r Bwrdd, wedi'i esblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fargen. Roedd ei aelodaeth yn cynnwys uwch swyddogion o'r ddau Gyngor, gydag arsylwyr o'r ddwy Lywodraeth.

Roedd rôl a swyddogaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio yng nghyd-destun Bargaen Twf Canolbarth Cymru bellach wedi'u diffinio o fewn IAA3. Roeddent yn rhoi cymorth a chyngor proffesiynol i'r Bwrdd ar ddarparu'r Portffolio Bargaen Twf Canolbarth Cymru.

Roedd Cynllun Dirprwyo yn Atodlen 1 i IAA3 hefyd yn nodi'r materion hynny a oedd ar gyfer y Grŵp Rheoli, ar gyfer y Bwrdd ac a gadwyd yn ôl ar gyfer y Cynghorau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo IAA3 yn unol â'r drafft a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

5.	EITEMAU WEDI'U HEITHRIO
-----------	--------------------------------

PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail y byddai'n datgelu gwybodaeth eithriedig iddynt o dan gategori 1 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007).

6.	SYMUD YMLAEN - AILDDYLUNIO GWASANAETHAU TAI CYNGOR SIR POWYS
-----------	---